OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 No. 1710

Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006

Hysbysiadau'n gwahardd symud

6.—(1) Pan fo gan berson awdurdodedig sail resymol dros amau bod clefyd hysbysadwy neu bla hysbysadwy yn bresennol mewn unrhyw fangre neu gerbyd, rhaid iddi gyflwyno i berchennog neu i'r person sy'n gyfrifol am—

(a) unrhyw gwch, gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn, falurion cwch neu offer sydd yn y fangre neu'r cerbyd; neu

(b) unrhyw beth arall a allai ledaenu'r clefyd hysbysadwy neu'r pla hysbysadwy sydd yn y fangre neu'r cerbyd,

hysbysiad yn gwahardd eu symud ac yn gwahardd symud unrhyw blâu gwenyn sydd ynddynt neu sy'n effeithio arnynt, heblaw o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Os rhwystrir unrhyw berson awdurdodedig rhag gweithredu ei bwerau i gael mynediad o dan adran 2 o'r Ddeddf, caiff gyflwyno i'r person sy'n ymddangos i'r person awdurdodedig mai ef yw perchennog neu feddiannydd y fangre, neu mai ef yw perchennog neu'r person sy'n gyfrifol am y cerbyd, hysbysiad sy'n gwahardd symud o'r fangre neu'r cerbyd—

(a) unrhyw gwch, gwenyn, diliau, cynhyrchion gwenyn, plâu gwenyn, malurion cwch neu offer; neu

(b) unrhyw beth arall a allai ledaenu clefyd hysbysadwy neu bla hysbysadwy.

(3) Rhaid diddymu hysbysiad a gyflwynwyd yn unol â pharagraff (2) os yw person awdurdodedig yn ddiweddarach yn gallu gweithredu'n ddirwystr ei bwerau i gael mynediad o dan adran 2 o'r Ddeddf yn y fangre neu'r cerbyd.

(4) Yn yr erthygl hon, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwenyn 1980.